




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.gov.wales](http://www.gov.wales)



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

## Sut i gofnodi contractau caffael trwy WEFO Ar-lein

Fersiwn: 1.0 Rhagfyr 2016

Version: 2.0 December 2016

**Cronfeydd yr UE:  
Buddsoddi yng  
Nghymru**  
**EU Funds:  
Investing in Wales**



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn hwn yn darparu canllawiau ar y gofyniad i roi gwybodaeth i WEFO am yr holl gontractau gwerth £25,000 neu fwy sydd wedi'u caffael. Mae'n ofynnol i'r holl fuddiolwyr ddarparu'r wybodaeth hon i WEFO, gan gynnwys awdurdodau preifat/nad ydynt yn contractio.

Mae'r nodyn hwn yn ymwneud â'r drefn adrodd am yr wybodaeth gaffael trwy WEFO ar-lein yn unig ac nid yw'n cynnwys y gofynion caffael eu hunain. Rhoddir rhagor o ganllawiau ar hyn yn Rheolau Cymhwysedd Cenedlaethol Cymru sydd ar gael ar wefan WEFO.

## Sut i gofnodi contractau caffael trwy WEFO Ar-lein

Os yw eich gweithrediad yn caffael contract neu'n defnyddio contract presennol gwerth £25,000 neu fwy, mae'n rhaid cofnodi manylion y caffaeliad ar WEFO Ar-lein. Mae'r £25,000 mewn gwerth yn berthnasol i'r contract cyffredinol yn hytrach na gwariant sy'n ymwneud â Gweithrediadau.

Bydd y data yn cael eu cofnodi mewn tri maes:

- Proffil Cyflenwi
- Achos
- Hawliad

Defnyddir y data hyn i fodloni gofynion adrodd WEFO a'r UE ar gyfer lefel y gweithgarwch caffael.

## Pwyntiau allweddol

- Mae'r gofynion adrodd hyn yn berthnasol i gontractau gwerth £25,000 neu fwy yn unig;
- Mae angen cofnodi data dim ond pan fydd y Gweithrediad yn defnyddio 'costau gwirioneddol/costau real' i wneud hawliadau talu ar gyfer y gwasanaethau/gwaith/cyflenwadau sydd wedi eu caffael. Pan fo costau caffael yn cael eu talu trwy Ddewis Cost Syml (SCO), ni chaiff taliadau unigol i'r contract eu hawlio ond eu cynnwys yn yr SCO, ac nid oes gofyniad i adrodd data caffael/contract ar WEFO Ar-lein, ond, darllenwch y nodiadau ar ddiwedd y ddogfen hon;
- Mae'r un gofynion yn berthnasol pan ddefnyddir contract/ fframwaith presennol (h.y. a ddyfarnwyd/sefydlwyd cyn dechrau'r gweithrediad, contract neu fframwaith ar draws y sefydliad/sector);
- Mae'n rhaid hefyd nodi addasiadau i gontractau, ni waeth beth yw gwerth y newid;
- Cytundebau fframwaith:
  - Mae'n rhaid nodi gwybodaeth am bob contract gwerth £25,000 neu fwy a ddyfernir o dan gytundeb fframwaith. Nid oes gofyniad i gofnodi'r cytundeb fframwaith ei hun – dim ond y contractau sy'n codi ohono.
  - Pan gaiff fframwaith gwerth £25,000 neu fwy ei sefydlu, ond nad oes gwerth o £25,000 neu fwy i'r un o'r contractau a ddaw o dan y fframwaith, nid oes angen cofnodi unrhyw beth yn y tab Caffael nac ar y Math o Wariant Caffael.

## Adran 1: Proffil Cyflenwi

Yn rhan o'r proffil cyflenwi, mae'n ofynnol i'r Prif Fuddiolwr ddarparu proffil ar gyfer unrhyw wariant a nodir gan y Gweithrediad. Mae caffael yn un o bedwar math o wariant a welir ar y sgrin gwariant ar y proffil cyflenwi. Gwerth y caffael a nodir yma ddylai fod gwerth y contractau y disgwylir i fod ar y trothwy £25,000 neu uwch.

Dylid cynnwys unrhyw gaffael a fwriedir ond y disgwylir iddo fod o dan y trothwy £25,000, o dan y Math o Wariant Gwirioneddol.

Nodwch fod hyn yn wahanol i werth y contractau a ychwanegir i'r tab 'Achos' – i gael rhagor o wybodaeth ewch i'r adran nesaf.

## Adran 2: Achos

Mae tab Caffael yr Achos yn cynnwys manylion am y contract, y contractwr a'r math o gaffael a ddefnyddiwyd. Mae wedi'i gysylltu â'r proffil cyflenwi a'r hawliad ac mae'n hollbwysig i'r Rhif Contract fod yn gyson.

Gwahaniaeth allweddol i'r proffil cyflenwi/hawliad yw bod cyfanswm y gwerth sy'n gysylltiedig â contract yn cael ei nodi hyd yn oed os nad yw'n gwbl berthnasol i'r gweithrediad, h.y. contract mawr sy'n cynnwys gweithrediadau lluosog neu weithgarwch nas ariennir gan yr UE (yn achos contractau gwerth £25,000 neu fwy yn unig).

Golyga hyn os ydych yn cynnal gweithrediadau lluosog, bod yn rhaid i'r Rhifau Contract fod yn gyson ar gyfer yr holl weithrediadau.

Yn adran Manylion y Caffael ar WEF0 Ar-lein, mae angen i chi lenwi'r **Amcangyfrif o Werth**, h.y. cyfanswm y caffael disgwyliedig o fewn y gweithrediad. Pan ddyfarnwyd contract i asiant cyflenwi (cwmni/sefydliad) bydd angen i chi **Ychwanegu** manylion y contract hwnnw i'r adran Contractau ar WEF0 Ar-lein. Os oes mwy nag un contract wedi'i ddyfarnu i asiant cyflenwi (cwmni/sefydliad) bydd angen i chi ychwanegu manylion pob contract ar wahân.

Dylid llenwi'r **Amcangyfrif o Werth** yn barhaus pan fydd eich Gweithrediad wedi'i gymeradwyo. Yr amcangyfrif o gost y **Gweithrediad Cyfan** a fydd yn ddarostyngedig i brosesau gwerth £25,000 neu fwy.

Dylech nodi gwerth yn nhermau'r arian a gymeradwywyd.

Cyn gynted ag y byddwch yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i gyfanswm yr amcangyfrif o werth, dylech chi ddiweddarau'r maes hwn trwy ddefnyddio'r botwm Golygu Amcangyfrif.

I ychwanegu contract at eich manylion, cliciwch ar y botwm **Ychwanegu**. Bydd hwn yn eich tywys i sgrin ar wahân lle mae'n rhaid i chi lenwi'r manylion yn y meysydd gorfodol canlynol.

Caffael – Lefel y Contract

**Sector:** dewiswch y sector y mae'r contractwr yn gweithredu ynddo, h.y. y sector Cyhoeddus, y sector Preifat neu'r Trydydd sector.

**Teitl y Contract:** enw'r contract a ddyfarnwyd i'r contractwr.

**Enw'r Contractwr:** enw'r asiant gweithredu (cwmni/sefydliad) y dyfarnwyd y contract iddo. Os oes mwy nag un contract wedi'i ddyfarnu i'r un asiant gweithredu (cwmni/sefydliad) sicrhewch fod yr enw a ddefnyddir yn gyson wrth ychwanegu pob contract ar wahân.

**Rhif y Contract:** y rhif unigryw neu gyfeirnod y contract a neilltuwyd i'r contractwr.

Os yw'r contract yn cynnwys consortiwm o fwy nag un contractwr, mae'n rhaid i fanylion pob contractwr gael eu cofnodi ar wahân gan ddefnyddio'r un rhif contract, teitl y contract a gwerth y contract. Yn yr un modd, os oes dau neu fwy o Weithrediadau yn defnyddio'r un contract, dylid ychwanegu manylion y contract o dan bob Gweithrediad gan ddefnyddio'r un rhif contract, teitl y contract a gwerth y contract, a manylion y contractwr.

**Gwerth y Contract:** y gwerth yn y termau arian a ddefnyddiwyd wrth gymeradwyo contract a ddyfarnwyd i'r asiant cyflenwi perthnasol. Cyfanswm gwerth y contract sydd wedi'i gaffael yw hwn ac nid yw wedi'i gyfyngu i gyfran y contract sy'n cyflenwi cynhyrchion neu wasanaethau ar ran y Gweithrediad.

**Cod post:** cod post yr asiant gweithredu (cwmni/sefydliad) y dyfarnwyd y contract iddo.

**Statws:** rhowch statws presennol y contract, yn ôl y canlynol:

**Parhaus:** contractau cyfredol ac sy'n dal i gyflenwi cynhyrchion neu wasanaethau o fewn yr amserlen ddiffiniedig.

**Cwblhawyd:** contractau sy'n gyflawn yn ariannol ac sydd wedi gorffen cyflenwi neu sydd wedi golygu rhywfaint o wariant ond sydd wedi'u terfynu yn gynnar.

**Wedi'i ganslo:** contractau a gaiff eu dyfarnu ac wedyn eu canslo cyn mynd i unrhyw wariant.

**Math o Contract:** Dewiswch y math perthnasol o gontract o'r rhai sydd ar gael – Gwasanaeth, Cyflenwad neu Waith Cyhoeddus. Gweler Cyfarwyddeb yr UE 2014/24/EU i gael rhagor o wybodaeth am gaffael cyhoeddus neu cysylltwch â'ch arbenigwr caffael.

**Enw'r Contractwr/Cod Adnabod Unigryw:** cod adnabod unigryw y Gweithrediad ar gyfer yr asiant cyflenwi (cwmni/sefydliad) y dyfarnwyd y contract iddo. Os oes gan yr asiant cyflenwi rif adnabod GwerthwchiGymru mae'n rhaid i chi ddefnyddio hwnnw yma. Os oes

mwy nag un contract wedi'i ddyfarnu i'r un asiant gweithredu (cwmni/sefydliad) sicrhewch fod y cod adnabod unigryw yn gyson wrth ychwanegu pob contract ar wahân.

**Enw Cyflwynydd Anfoneb y Contractwr/Cod Adnabod Unigryw:** enw neu god adnabod unigryw yr unigolyn yn yr asiant cyflenwi (cwmni/sefydliad) sy'n gyfrifol am gyflwyno anfonebau contract.

**Ble yr Hysbysebwyd:** dewiswch ble yr hysbysebwyd y contract o'r dewisiadau isod:

- GwerthwchiGymru
- Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)
- Arall

**Cyfeirnod yr Hysbyseb:** cyfeirnod yw hwn a fydd yn galluogi olrhain yr hysbyseb e.e. cyfeirnod OJEU/GwerthwchiGymru.

**Y Drefn Gaffael a Ddefnyddiwyd:** dewiswch y math o drefn gaffael a ddefnyddiwyd:

- Cyd-drafod/Deialog Cystadleuol
- Agored
- Cyfyngedig

Gweler Cyfarwyddeb yr UE 2004/17/EC, Cyfarwyddeb yr UE 2004/18/EC a Chyfarwyddeb yr UE 2014/23/EU i gael rhagor o wybodaeth.

**Diweddarwyd diwethaf:** dyma'r dyddiad pan ychwanegir manylion y contract neu pan gaiff manylion contract presennol eu diweddarau.

O dan 'Manylion Caffael' bydd nifer a gwerth eich contractau yn newid yn awtomatig wrth i chi barhau i ychwanegu contractau. Bydd y chwe maes canlynol yn diweddarau'n awtomatig yn ôl sut yr ydych yn categoreiddio eich contractwyr:

Nifer y Contractau yn y Sectorau Cyhoeddus/Preifat neu'r Trydydd Sector

Gwerth Contractau y Sector Cyhoeddus/Preifat neu'r Trydydd Sector

Dod o hyd i'ch gwybodaeth a'i golygu

Pan fyddwch yn dychwelyd i'r tab Contractau byddwch yn gweld crynodeb o'ch holl gcontractau wedi'i ddilyn gan restr o'ch contractwyr. I ddiwygio unrhyw fanylion mae angen i chi glicio ar Rif y Contract a fydd yna'n caniatáu i chi newid unrhyw un o'r manylion uchod.

### **Adran 3: Hawliad**

Yn rhan o'r broses hawlio, mae'n ofynnol i'r Prif Fuddiolwr gyflwyno rhestrau o drafodiadau gwariant. Ar y rhestr o drafodiadau, dylid nodi unrhyw linellau gwariant sy'n ymwneud â Chontractau gwerth dros £25,000 fel 'Caffael' yn y golofn 'Math o Wariant' a thrwy gynnwys 'Rhif y Contract' o'r tab 'Caffael' yn yr adran Achos - gweler yr adran flaenorol i gael rhagor o wybodaeth.

Dylid nodi trafodion Caffael ar gyfer contractau gwerth llai na £25,000, fel Math o Wariant Gwirioneddol. Ar gyfer trefniadau caffael gwerth >£25,000 rhowch gyfeirnod y contract ar y rhestr o Drafodiadau i gynorthwyo ag unrhyw brofion/addasiadau i'r contract yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i ychwanegu data gwariant at restr o drafodion, gweler Trefniadau Hawlio 2014-2020 – Cyfarwyddiadau ar gyfer Prif Fuddiolwyr.

#### ***Noder:***

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â **gofynion Adrodd** ar Gaffael yn unig. Ni fu unrhyw newidiadau i brosesau a gofynion ymarferion Cyflawni caffael (hysbysebu a dyfarnu contractau ac ati) fel y'u disgrifir yn "Rheolau cymhwysra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020" WEFO.

Mae'n rhaid cynnal Ymarferion Caffael trwy Ddewisiadau Cost Syml (gweler pwynt allweddol 2, pwynt bwled 2 uchod) o hyd yn unol â "Rheolau cymhwysra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020" WEFO. Er nad oes angen adrodd ar gostau, bydd yr ymarfer caffael ei hun yn destun adolygiad gan yr Awdurdod Archwilio, MVT WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd.



I gael rhagor o wybodaeth:

[www.gov.wales/eu-funding](http://www.gov.wales/eu-funding)

@wefowales / @wefocymru

Desg Gymorth Ymholiadau:

0845 010 3355

**Cronfeydd yr UE:  
Buddsoddi yng  
Nghymru**

**EU Funds:  
Investing in Wales**



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government